Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# Canllawiau Statudol ar Swyddogaeth ac Atebolrwydd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol

Cyhoeddwyd o dan Adran 7
Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol
Awdurdodau Lleol 1970

*Mehefin 2009*

# Canllawiau ar Swyddogaeth ac Atebolrwydd Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae gan y Gwasanaethau Cymdeithasol set unigryw o nodweddion sy'n llywio anghenion rheoli'r gwasanaethau a'u cysylltiadau o fewn llywodraeth leol.

**Mae yna sail statudol glir ar gyfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol Awdurdodau Lleol ac ar gyfer penodi Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol**

1.2 Pennwyd cyfrifoldebau'r Awdurdodau Lleol dros wasanaethau cymdeithasol yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970, fel y'i diwygiwyd, sy'n rhestru'r swyddogaethau hyn yn Atodlen 1. Mae Adran 6 yn gofyn i'r Awdurdodau benodi Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae Canllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Drefniadau Gweithredol a Threfniadau Amgen 2006 yn nodi chwe chyfrifoldeb craidd y Cyfarwyddwr ledled holl swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod. Mae'r Canllawiau'n pwysleisio pwysigrwydd sicrhau trefniadau atebolrwydd clir ar gyfer Cynghorwyr a phob aelod o staff sy'n ymwneud â/cael ei gyflogi i gyflawni swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol, y rheiny sy'n uniongyrchol atebol i'r Cyfarwyddwr, yn ogystal â'r rheiny sydd heb reolwr llinell uniongyrchol. Mae angen cyflenwi'r cyfrifoldebau craidd hyn er mwyn i gyngor allu cyflawni ei gyfrifoldebau gwasanaethau cymdeithasol.

**Bydd angen arweiniad cadarn, atebol ac eangfrydig i gyflawni gweledigaeth Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol**

1.3 Gosododd *Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol* y weledigaeth ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru fel gwasanaethau craidd o fewn llywodraeth leol a fyddai'n hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol ac annibyniaeth, yn darparu cymorth a diogelwch a bod yn hyrwyddwyr corfforaethol ar gyfer y grwpiau hynny sydd fwyaf agored i niwed ac mewn perygl yn yr ardal. Mae'n hanfodol ein bod yn sicrhau bod yr atebolrwyddau a nodwyd ynghynt yn cael eu cyflawni er mwyn sicrhau bod gan y gwasanaethau'r rheolaeth glir a'r arweiniad proffesiynol cadarn sydd ei angen.

1.4 Mae arweiniad proffesiynol yn ehangu'r dasg gorfforaethol o reoli gwasanaethau (megis rheoli gwaith, staff, adnoddau a pherfformiad) i dasg sy'n ymgysylltu'n ehangach. Mae hyn yn cynnwys bod yn eiriolwr awdurdodol ar gyfer yr agenda gofal cymdeithasol ac adfywio cymdeithasol, cefnogi datblygiad ymarfer ar sail tystiolaeth a chysylltu â'r rhwydweithiau proffesiynol a gwasanaeth ehangach er mwyn cynorthwyo a chyfrannu at ddatblygiadau cydweithredol a'r gwaith o ddarparu gwasanaethau. Mae'n bwysig nad yw hyn yn cael ei weld yn y cynlluniau ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol a gwasanaethau gofal cymdeithasol, ond hefyd yn yr hyn y gall y Cyfarwyddwr ei gyfrannu at fentrau corfforaethol ehangach, fel hyrwyddo lles.

**Mae Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhyngddibynnol iawn ar gysylltiadau mewnol ac allanol**

1.5 Mae gwasanaethau cymdeithasol effeithiol yn dibynnu ar ymgysylltu ag amrywiaeth eang o bartneriaethau rhwng elfennau o'r gwasanaeth, gyda gwasanaethau eraill y cyngor a gydag asiantaethau allanol. Mae'n gweithredu trwy farchnad gymysg sylweddol o ddarparwyr. Mae'n hanfodol fod y gwasanaethau cymdeithasol eu hunain yn cynnal cydlyniad sy'n sicrhau gwasanaeth di-dor a diogel i ddefnyddwyr, yn arbennig:

- rhoddir ystyriaeth i ddiogelwch a lles plant mewn teulu bob amser wrth benderfynu ar gymhwysedd i gael cymorth gan y gwasanaethau oedolion;
- mae rhieni'n cael cymorth gan y gwasanaethau oedolion i'w helpu i fagu eu plant mor effeithiol â phosibl;
- rheolir y cyfnodau trosglwyddo ym mywydau defnyddwyr gwasanaethau sydd ag anghenion gofal parhaus yn sensitif er mwyn sicrhau'r annibyniaeth a'r lles gorau posibl a gwireddu cyfleoedd ataliol; a
- cael gweithlu digonol a medrus sydd wedi'i gynllunio a'i ddatblygu mewn ffordd integredig sy'n manteisio i'r eithaf ar y cryfderau a'r cyfleoedd y mae gwasanaethau cydgysylltiedig yn eu darpar.

Mae arweiniad unedig y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas â gwasanaethau Plant ac Oedolion yn hanfodol i weithredu hyn.

**Mae Gwasanaethau Cymdeithasol yn wasanaethau cynhenid bregus ac anodd eu cyflenwi yn gynhenid**

1.6 Ceir sawl reswm dros hyn:

- y cyd-destun llawn her o newidiadau mewn disgwyliadau, anghenion cymdeithasol a demograffeg yn cynyddu'r galw am y gwasanaethau;
- natur agored i niwed defnyddwyr gwasanaethau, sydd yn aml yn cael ei chymhlethu gan anfantais ac ymddygiad risg uchel;
- dechrau derbyn gwasanaethau pan mae'n argyfwng yn aml iawn;
- natur ymwthiol rhai elfennau o'r gwasanaeth, megis diogelu, rhianta corfforaethol a'r angen am ofal gydol oes neu gymhleth;
- yr angen i gydbwyso gofal, rheoli a grymuso o fewn cyd-destun rheoli risg; a
- mae gwasanaethau yn gorfod gweithio'n aml heb ganiatâd gweithredol defnyddwyr.

1.7 Mae hyn yn gofyn am arweiniad proffesiynol unedig gyda rheolaeth gorfforaethol o wasanaeth mawr sy'n gweithredu o fewn ac yn cyfrannu at gyd-destun ehangach nodau corfforaethol y cyngor.

**Mae yna batrwm cyson o amrywioldeb yn y gwasanaethau**

1.8 Er y gellir gweld gwelliant cyson a thystiolaeth o wasanaethau ardderchog ledled Cymru, mae yna hefyd dystiolaeth o'r anhawster o ran cyflawni a chynnal perfformiad da, gyda bwlch sylweddol rhwng y gwasanaethau sy'n perfformio orau a gwaethaf. Rhaid sefydlu'r gweithgarwch rheoli perfformiad o fewn y gwasanaeth atebol. Mae ehangu trefniadau adrodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn egluro ac yn cynnal cyfrifoldeb ac atebolrwydd y gwasanaethau cymdeithasol o fewn y cyngor. Mae'n darparu fframwaith cryfach ar gyfer cynorthwyo gwelliant ac arolygu a rheoleiddio gwasanaethau. Mae hefyd yn cyflenwi'r newidiadau arfaethedig i Raglen Cymru ar gyfer Gwella ac yn darparu sylfaen gryfach i'r gwasanaethau cymdeithasol allu cyfrannu at y trefniadau corfforaethol ar gyfer adrodd ar welliannau.

**Pwrpas y Canllawiau**

1.9 Y cynghorau ddylai penderfynu ar y trefniadau rheoli gwasanaethau sy'n diwallu eu hanghenion orau. Nod y Canllawiau yw sicrhau bod y trefniadau hyn yn galluogi Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol i gyflawni eu hatebolrwyddau yn effeithiol a sicrhau bod y gwaith o reoli perfformiad gwasanaethau cymdeithasol wedi ei leoli a'i nodi'n glir o fewn y cyngor. Cyfrifoldeb y cyngor yw sicrhau bod yr holl dystiolaeth a gynhyrchir gan Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol (boed yn ddata perfformiad, data cyd-destunol, rheoli risg neu gyngor ar gynllunio strategol y gwasanaeth) yn cael ei chynnwys yn llawn o fewn prosesau'r cyngor o dan y canllawiau cyfredol ar Raglen Cymru ar gyfer Gwella a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

1.10 Bydd y Canllawiau hyn yn cael eu cyhoeddi yn Adran 7 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970. Maent yn cyd-fynd â dogfennau a chanllawiau cyfredol a dylid eu darllen ochr yn ochr â'r rhain.

## 2. Crynodeb o'r Cynnwys

Mae'r canllawiau hyn yn cynnwys: **Tudalen**


**Cyflwyniad** **1**
Nodi nodweddion unigryw Gwasanaethau Cymdeithasol.

**Y Gofyniad Statudol i Benodi Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol** **7**
Nodi sail swyddogaethau gwasanaeth cymdeithasol ALl, y gofyniad i benodi a sail rôl Cyfarwyddwr Arweiniol Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc, sy'n gorgyffwrdd.

**Atebolrwydd o fewn y Cyngor** **11**
Disgrifio elfennau chwe atebolrwydd craidd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.

**Cysylltiadau** **19**
Ymdrin â chysylltiadau rhwng y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Phennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig, y Cyfarwyddwr Arweiniol a phenaethiaid gwasanaethau o fewn swyddogaethau'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

**Adrodd ar Berfformiad, Gwelliannau a Chraffu** **23**
Nodi'r gofyniad i adrodd yn flynyddol ar ddarpariaeth, perfformiad a gwelliannau mewn Gwasanaethau Cymdeithasol a'r cysylltiadau â Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella a phrosesau craffu.

**Galluoedd a Argymhellir ar gyfer Deilydd Swydd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol** **27**

**Atodiad 1: Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970, Atodlen 1** **29**

# 3. Y Gofyniad Statudol i Benodi Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol

**Trefniadau Gweithredol a Threfniadau Amgen**

3.1 Mae Rhan II o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 yn nodi'r gofynion sydd ar bob awdurdod lleol i benderfynu ar gyfrifoldebau dros swyddogaethau, dewis o blith amrywiaeth o fodelau a strwythurau gweithredol, sefydlu systemau craffu, a datblygu a diwygio ei gyfansoddiad. O fewn pob awdurdod lleol, cyfrifoldeb y Weithrediaeth yw'r swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol, a dylai sicrhau bod gan y gwasanaethau cymdeithasol yr arweiniad a'r cyfeiriad clir sydd ei angen arnynt. Rhaid i bob Cynghorydd wybod yn union beth yw'r trefniadau atebolrwydd ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol. Rhaid i gyfansoddiad y cyngor enwi pwy sy'n gyfrifol am y swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol, a nodi sut bydd pwyllgorau'n atebol trwy drosolwg a chraffu. Mae'n hanfodol fod gan bobl leol hyder yn eu gwasanaethau cymdeithasol ac yn y bobl sy'n eu cynnal.

3.2 Mae'r gwasanaethau ar gyfer plant mewn angen, a'r rheiny ar gyfer diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl, yn gofyn am ymrwymiad arbennig gan uwch swyddogion a Chynghorwyr etholedig yr awdurdodau lleol. Mae'n arbennig o bwysig fod rôl a dyletswyddau'r swyddogion a rôl y cynghorwyr sy'n ymwneud â phlant mewn angen ac amddiffyn plant ac oedolion yn cael y flaenoriaeth sydd ei hangen arnynt. Rhaid i gyfansoddiadau ddarparu trefniadau cadarn ar gyfer cyflawni'r rolau a'r dyletswyddau hynny. Dylai'r cyfansoddiad esbonio rôl cynghorwyr unigol, y Weithrediaeth a'r pwyllgorau trosolwg a chraffu yn glir o ran ymdrin â'r materion hyn, a sut bydd adroddiadau perthnasol yn cael eu trin.

**Y gofyniad statudol i benodi Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol**

3.3 O dan Adran 6 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970, rhaid i bob awdurdod lleol sefydlu swydd statudol Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol. Cadarnhaodd *Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol*[1] y byddai Llywodraeth Cynulliad Cymru'n parhau i ofyn i bob cyngor benodi Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a fyddai'n gyfrifol am sicrhau bod swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod yn cael eu cyflawni, fel y'u nodir yn Atodlen 1 o Ddeddf 1970. Mae'r Ddeddf hefyd yn gofyn i'r awdurdod benodi digon o staff i gynorthwyo'r Cyfarwyddwr at ddibenion ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol.

3.4 Mae Atodlen 1, fel y'i diwygiwyd, yn nodi swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol, sy'n ystyried y sefyllfa statudol gyfredol. Mae'r Atodlen ynghlwm yn **Atodiad 1**.

3.5 Yn y *Canllawiau ar Drefniadau Gweithredol a Threfniadau Amgen* y cyfeiriwyd atynt ynghynt, nododd Llywodraeth Cynulliad Cymru'r cyfrifoldebau craidd y mae Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol yn atebol amdanynt ar draws holl swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdod. Ailadroddwyd yr

[1] Am ragor o wybodaeth am Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol, ewch i: http://cymru.gov.uk/topics/health/publications/socialcare/strategies/fulfilledlives?lang=cy.

atebolrwyddau hyn, sy'n hanfodol ar gyfer cyflawni'r swyddogaethau hyn effeithiol, yn 2007 yn *Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol.* Dyma nhw:

- darparu arweiniad proffesiynol clir ar draws y gwasanaethau cymdeithasol;
- gallu cysylltu â'r Prif Weithredwr â'r cynghorwyr yn uniongyrchol a'u cynghori ar faterion gwasanaethau cymdeithasol a'r cyfeiriad a'r camau gweithredu y dylai'r awdurdod eu cymryd i gyflawni ei gyfrifoldebau o ran gwasanaethau cymdeithasol;
- sicrhau bod yna drefniadau rheoli perfformiad cadarn ar draws y gwasanaethau cymdeithasol, ac adrodd ar berfformiad yr awdurdod o ran y trefniadau hyn, ar lefel gorfforaethol ac i Gynghorwyr;
- sicrhau bod gan yr awdurdod drefniadau diogelu priodol i ddiogelu plant a phobl ifanc, oedolion a phobl hŷn sy'n agored i niwed, ac adrodd ar eu heffeithiolrwydd ar lefel gorfforaethol ac i Gynghorwyr;
- cyflawni'r cyfrifoldeb cyffredinol dros gynllunio, hyfforddiant a datblygiad proffesiynol y gweithlu gwasanaethau cymdeithasol; a
- sicrhau bod yna ddigon o drefniadau wedi'u gwneud i'r gwasanaethau cymdeithasol allu gweithio'n effeithiol ag eraill, tu fewn a thu allan i'r awdurdod, er mwyn cyflawni'r swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol ac i gyfrannu at gyflawni amcanion polisi ehangach.

3.6 Bydd methiant ar ran y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol i gyflawni'r cyfrifoldebau craidd hyn yn sicr o olygu na fydd awdurdod yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol. Bydd hyn yn peri i Weinidogion Cymru ystyried arfer eu pwerau diffyg gweithredu o dan Adran 7D o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdod Lleol 1970, Deddf Plant 1989 neu Ddeddf Addysg 1992.

3.7 Darparodd Adran 25 o Ddeddf Plant 2004 ar gyfer Rhanneriaethau Plant a Phobl Ifanc statudol, lle mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i arwain y gwaith o hyrwyddo cydweithrediad sy'n gosod trefniadau a fydd yn gwella lles plant a phobl ifanc. Mae Adran 26 yn darparu ar gyfer Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc statudol. Cynllun Plant a Phobl Ifanc yw'r datganiad allweddol o'r bwriad i gynllunio. Mae'n cynnwys yr ystod lawn o wasanaethau i blant ar draws llywodraeth leol ac asiantaethau eraill, darparu gweledigaeth strategol, nodi'r blaenoriaethau a'r targedau y cytunwyd arnynt ac mae'n sail ar gyfer comisiynu gwasanaethau ar y cyd.

3.8 Mae Adran 27 yn gofyn i awdurdodau lleol enwebu Cyfarwyddwr Arweiniol Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc ac Aelod Arweiniol, ynghyd â'r aelodau staff cyfatebol yng nghyrff y GIG. Prif gyfrifoldeb Cyfarwyddwr Arweiniol Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc yw cydgysylltu a goruchwylio'r trefniadau o dan Adrannau 25 a 26. Mae'r cyfrifoldeb hwn yn ychwanegol at, ac yn annibynnol ar unrhyw gyfrifoldeb gweithredol a allai fod gan Gyfarwyddwr Arweiniol dros wasanaeth arbennig neu grŵp o wasanaethau, a gellid gofyn i unrhyw Gyfarwyddwr priodol o fewn yr uwch dîm rheoli ymgymryd â'r cyfrifoldeb hwn.

3.9 Nid yw rôl y Cyfarwyddwr Arweiniol yn newid y trefniadau ar gyfer awdurdod gweithredol nac atebolrwydd ar gyfer gwasanaethau. Mae ganddo 3 rôl allweddol:

- hyrwyddo Rhanneriaeth mewn cynllunio ar draws yr Awdurdod a'i bartneriaid, gan alluogi cydweithio a sicrhau bod y Cynllun Plant a Phobl Ifanc yn cael ei baratoi;
- darparu arweiniad er mwyn sicrhau bod y gwaith cynllunio Rhanneriaeth yn effeithiol, ei fod yn cael amlygrwydd a bod gan bartneriaethau drefniadau llywodraethu clir sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd. Y Cyfarwyddwr Arweiniol sy'n gyfrifol hefyd am sicrhau bod Archwiliad Hunanasesu'r *Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol (NSF) ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a'r Gwasanaethau Mamolaeth*[2] yn cael ei gwblhau'n rheolaidd; a
- sicrhau bod yr awdurdod lleol yn gweithredu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a bod plant, pobl ifanc a theuluoedd yn gallu bod yn rhan o broses baratoi ac adolygu'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc.

Hefyd, gweler *Rhanneriaethau Cryfach i Wella Canlyniadau*[3]*,* Cylchlythyr 35/2006 y Llywodraeth, paragraffau 9.1- 9.10. Gofynnir i bawb mewn Awdurdodau Lleol sydd â chyfrifoldebau arweiniol o dan y canllawiau hyn hyrwyddo cydweithio er mwyn gwella lles plant a phobl ifanc a sicrhau bod y Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc yn cael eu cynhyrchu ym mhob un o wasanaethau'r awdurdod lleol a phartneriaid lleol.

3.10 Cafwyd darpariaeth debyg yn Rheoliadau Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant Cymru 2003, a ddiwygiwyd yn 2007, lle gofynnwyd i'r awdurdodau lleol a'r cyrff iechyd weithio mewn Rhanneriaeth i gynhyrchu cynlluniau strategol 3 blynedd cynhwysfawr a oedd yn defnyddio Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc mewn perthynas â phlant.

3.11 Nododd adrannau eraill o Ddeddf Plant 2004 ddyletswyddau cyrff amrywiol i ddiogelu a hyrwyddo lles plant, a'r gofynion ar awdurdodau lleol i sefydlu Byrddau Lleol Diogelu Plant a fyddai'n cynnwys asiantaethau eraill.

3.12 Nododd *Mewn Dwylo Diogel*[4]*,* Canllawiau a gyhoeddwyd yn 2000 o dan Adran 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol, weithdrefnau amddiffyn oedolion ar gyfer oedolion sy'n agored i niwed. Roedd yn gofyn i'r gwasanaethau cymdeithasol arwain y gwaith o gydgysylltu'r broses o ddatblygu polisïau rhyngasiantaeth lleol ac roedd yn cymeradwyo sefydlu Pwyllgorau Amddiffyn Oedolion a Fforymau ardal ehangach. Bydd y Mesur Arfaethedig ynghylch Plant a Theuluoedd (Cymru)[5], ar ôl ei ddeddfu, yn ymestyn cyfrifoldebau statudol y

---

[2] Am ragor o wybodaeth am y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol (NSF) ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a'r Gwasanaethau Mamolaeth, ewch i: http://www.wales.nhs.uk/sites3/home.cfm?OrgID=441.
[3] Am ragor o wybodaeth am Rhanneriaethau Cryfach i Wella Canlyniadau, ewch i: http://cymru.gov.uk/publications/circular/circulars2006/1552968/?lanc=cy.
[4] Am ragor o wybodaeth am Mewn Dwylo Diogel, ewch i: http://newydd.cymru.gov.uk/topics/health/publications/socialcare/reports/insafehands?lang=cy.
[5] Am ragor o wybodaeth am y Mesur Arfaethedig ynghylch Plant a Phobl Ifanc (Cymru), ewch i: http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation/bus-leg-measures/business-legislation-measures-cf.htm.

Cyfarwyddwr ymhellach mewn perthynas â sefydlu a gweithredu Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd.

3.13 Wrth osod y trefniadau newydd ar gyfer gwasanaethau plant a gyflwynwyd gan Ddeddf Plant 2004, ailadroddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru y gofyniad i bob awdurdod lleol benodi Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol i sicrhau bod yr awdurdod yn cyflawni ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Gosododd rôl y Cyfarwyddwr statudol yn gadarn o fewn y cyd-destun bod angen i'r awdurdodau lleol gael trefniadau rheoli clir ac arweiniad proffesiynol cadarn o fewn gwasanaethau cymdeithasol, ac atebolrwydd clir, wrth wneud penderfyniadau ac wrth graffu, ar gyfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Mae adran ddiweddarach o'r Canllawiau hyn yn ystyried y goblygiadau ar gyfer y cysylltiadau rhwng Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, y Cyfarwyddwr Arweiniol ar gyfer Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc a Phrif Swyddogion a Phenaethiaid Gwasanaethau eraill.

**Fframwaith Statudol ar gyfer Gwelliant**

3.14 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi deddfu i ddiwygio Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella a chryfhau cynllunio cymunedol. Bydd hyn yn disodli'r ddyletswydd "gwerth gorau" gyda dyletswydd i sicrhau gwelliant mwy eang, ac yn mynnu bod awdurdodau lleol yn creu adroddiad cyhoeddus blynyddol ar lefelau perfformiad a risg a chynllunio ar gyfer gwelliant yn y dyfodol. Bydd yn rhoi dyletswydd ar bartneriaid lleol i gymryd rhan yn natblygiad y strategaeth gymunedol ac yn cryfhau ymhellach y fframwaith statudol y mae'n rhaid i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol weithredu oddi fewn iddo.

# 4. Atebolrwydd o Fewn y Cyngor

**Strwythurau a dirprwyaethau gweithredol**

4.1 O dan Adran 37 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, rhaid i bob awdurdod baratoi a chyhoeddi cyfansoddiad sy'n cynnwys cynigion ar gyfer cyflawni'r swyddogaethau. Roedd Cyfarwyddyd Deddf Llywodraeth Leol 2000 (Cyfansoddiad Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2001 yn nodi'r hyn yr oedd yn rhaid i gyfansoddiad y Cyngor ei gynnwys, ac roedd hyn yn cynnwys dyrannu cyfrifoldebau dros arfer ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol, ac yn arbennig, cyfrifoldebau dros blant sy'n derbyn gofal.

***Mae'r Canllawiau ar Drefniadau Gweithredol a Threfniadau Amgen 2006* yn pwysleisio'r angen i gyfansoddiad y cyngor a'r cynllun dirprwyo o fewn y weithrediaeth ddangos yn glir pwy sy'n gyfrifol am holl swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod.**

4.2 O dan y Canllawiau hyn, gall awdurdodau lleol ddewis o blith amrywiaeth o strwythurau Gweithredol. O fewn pob model ceir cyfle i'r Weithrediaeth ddefnyddio amrywiaeth eang o batrymau i ddirprwyo i Aelodau Arweiniol unigol, Pwyllgorau a swyddogion. Ymhlith y rhesymau dros ddirprwyo swyddogaethau i swyddogion, mae'r Canllawiau'n cynghori y dylid dirprwyo'r penderfyniadau gweithredol a rheoli, a'r penderfyniadau o ran swyddogaethau sy'n gofyn am sgiliau swyddogion proffesiynol, er mwyn sicrhau bod y penderfyniadau'n deg ac yn gyfreithlon yn ôl canllawiau, mewn Gwasanaethau Cymdeithasol, mae angen ymarfer doethineb proffesiynol wrth ymdrin â materion personol a chyfrinachol, a dylent gael eu dirprwyo i swyddogion yn unol â pholisïau cyffredinol y Cyngor.

4.3 Bydd y dewisiadau sydd ar gael i'r awdurdodau'n cynhyrchu amrywiadau mewn strwythurau a phatrymau dirprwyo. Rhaid i gyfansoddiad pob awdurdod nodi'n glir sut bydd atebolrwydd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael ei drefnu rhwng y Weithrediaeth, unrhyw Aelodau Arweiniol penodedig, Cyfarwyddwr statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol, Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig, y Cyfarwyddwr Arweiniol Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc a'r pwyllgorau craffu.

**Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol**

4.4 Dylai Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol gael statws digon uchel, gyda mynediad uniongyrchol i Bennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig a chynghorwyr. Mae angen y statws uchel hwn i gyflawni cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwr dros swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod, cyflawni'r atebolrwydd newydd ar gyfer perfformiad a gwelliannau, sicrhau cysylltiadau gwaith effeithiol â Phrif Swyddogion, Cyfarwyddwyr Arweiniol ac uwch reolwyr eraill mewn asiantaethau perthynol fel y GIG, ac ar gyfer yr ystod amrywiol o gyfrifoldebau i gynghorwyr. Mae'r Cyfarwyddwr yn adrodd yn uniongyrchol i Bennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig a rhaid iddo fod yn aelod o'r prif dîm rheoli.

4.5 Mae'r holl gyngor yn gyfrifol am gytuno ar bolisïau a chyllideb y cyngor, ac am gymeradwyo cynlluniau statudol penodol. Nodir swyddogaeth y Weithrediaeth o ran darparu arweiniad a chyfeiriad strategol i'r cyngor yn Rheoliadau Trefniadau

Gweithredol a Threfniadau Amgen 2006. Mae'r pwyllgorau trosolwg a chraffu yn dal y weithrediaeth yn gyfrifol am ei pherfformiad yn erbyn y safonau, y polisïau a'r targedau y cytunwyd arnynt, yn cynorthwyo i wella a datblygu polisïau'r cyngor ac yn archwilio'r systemau y mae'r weithrediaeth wedi'u rhoi ar waith er mwyn cyflawni ei swyddogaethau. Mae gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol gyfrifoldebau i'r cynghorwyr ym mhob un o'r meysydd hyn.

4.6 Rhaid cael trefniadau atebolrwydd ar gyfer holl staff y gwasanaethau cymdeithasol, p'un ai ydynt yn atebol i'r Cyfarwyddwr yn uniongyrchol neu â rheolwr llinell sy'n Brif Swyddog arall. Mae gan y Cyfarwyddwr rôl ganolog o ran sicrhau atebolrwydd. Efallai na fydd yn rheoli gwasanaethau'n uniongyrchol mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd, er enghraifft, lle comisiynir gwasanaethau'n allanol neu drwy bartneriaeth ag asiantaethau eraill neu adrannau eraill o'r cyngor. Pan fydd gweithgareddau a swyddogaethau'n cael eu rhannu, rhaid cael trefniadau effeithiol er mwyn galluogi'r Cyfarwyddwr i reoli gwybodaeth am berfformiad yr holl swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol.

4.7 Er mwyn sicrhau eglurdeb, dylid cynnwys trefniadau ar gyfer gwasanaethau a reolir ar wahân o fewn y cyngor mewn dogfen fframwaith ysgrifenedig. Lle mae asiantaethau allanol yn ymwneud â'r gwasanaethau, dylai'r trefniadau fod yn rhan o'r contract amodol.

**Atebolrwydd y Cyfarwyddwr**

4.8 Mae angen egluro'r rolau a'r cysylltiadau, a'u goblygiadau i'r drefn lywodraethu, ym mhob un o feysydd atebolrwydd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol. Wrth gyflawni'r meysydd atebolrwydd a welir isod, bydd angen i'r Cyfarwyddwr gydweithio ag amrywiaeth o bobl, ond yn arbennig gyda chynghorwyr, Prif Swyddogion eraill (yn arbennig y Cyfarwyddwr Arweiniol Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Plant Integredig a Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Oedolion, os yw'r rhain yn swyddi ar wahân), uwch staff asiantaethau Rhanner, defnyddwyr gwasanaethau a'u teuluoedd a staff o fewn y gwasanaethau cymdeithasol, yn arbennig Penaethiaid Gwasanaethau, waeth a yw'r rheolwr llinell uniongyrchol arnynt ai peidio. Pan fo swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu rheoli ar wahân, dylai atebolrwydd ar y cyd ar gyfer uwch staff o leiaf fod yn rhan o'r ddogfen fframwaith y cyfeirir ati yn 4.7.

**Arweiniad Proffesiynol Clir**

4.8.1 Bydd y Cyfarwyddwr yn:

- creu diwylliant proffesiynol cryf ac yn cyfathrebu gweledigaeth glir ar gyfer cyfeiriad y gwaith o ddatblygu gwasanaethau cymdeithasol;
- meithrin ac ennill ymrwymiad i sicrhau safonau uchel a gwelliant parhaus;
- sicrhau bod y staff a'r cyflogwyr yn cydymffurfio â'r Codau a gyhoeddwyd gan Gyngor Gofal Cymru;
- cynrychioli gwerthoedd, egwyddorion ac ansawdd ymarfer i aelodau, staff, asiantaethau eraill a'r cyhoedd;

- sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith i ddiogelu safonau ymarfer ac annibyniaeth weithredol staff sydd â chyfrifoldeb uniongyrchol am hyn;
- sefydlu diwylliannau arwain a dysgu ar bob lefel yn y gwasanaethau cymdeithasol;
- perfformio rôl arwain ehangach o ran y gwasanaethau gofal cymdeithasol lleol a ddarperir gan y sectorau preifat a gwirfoddol a'r Trydydd sector;
- cyfathrebu â phobl a gwrando arnynt trwy ddefnyddio gwasanaethau'r awdurdod a'u sefydliadau;
- gweithredu fel y prif bwynt cyswllt gyda staff arweiniol polisi a phroffesiynol Llywodraeth Cynulliad Cymru, cyrff rheoleiddio'r gwasanaeth a'r gweithlu a'r cyrff arolygu ac archwilio;
- sicrhau bod pob grŵp yn cyfrannu'n effeithiol tuag at y Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles a'r Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc o ran plant mewn angen a'u teuluoedd ac yn gweithio mewn Rhanneriaeth i gynorthwyo rôl y Cyfarwyddwr Arweiniol os mai rhywun arall yw deilydd y swydd hon;
- ymwneud â'r rhwydweithiau gwasanaeth ehangach e.e. y rheiny a sefydlwyd trwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC), Cymdeithas Cyfarwyd;
- dwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) Cymru a'r Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol (SSIA) i hyrwyddo dysgu a datblygu cydweithredol; a
- cynnal ei safonau proffesiynol ei hun a sicrhau datblygiad parhaus.

**Cyngor i Bennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig a Chynghorwyr ar Gyfeiriad Strategol a Chyfrifoldebau'r Gwasanaethau Cymdeithasol**

4.8.2 Bydd y Cyfarwyddwr yn:

- sicrhau bod Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig, y Weithrediaeth a'r cynghorwyr yn gallu cael y wybodaeth a'r cyngor proffesiynol diweddaraf gorau am bob mater sy'n ymwneud â gwasanaethau cymdeithasol;
- sicrhau Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig a'r cynghorwyr fod y swyddogaethau statudol a roddwyd yn nwylo'r awdurdod wedi'u cyflawni a bod gwybodaeth reoli briodol a chofnodion cywir yn cael eu cadw;
- nodi'r blaenoriaethau, yr heriau a'r risgiau ar draws pob agwedd ar wasanaethau cymdeithasol, gan gynnwys sefyllfaoedd lle mae problemau staffio yn effeithio ar allu'r cyngor i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol a lle bydd angen camau gweithredu corfforaethol o bosibl, a chynghori'r cynghorwyr ar yr holl elfennau hyn;
- briffio Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig ac aelodau am achosion sy'n denu llawer o sylw a materion eraill sy'n debygol o achosi pryder ymhlith y cyhoedd;

- sicrhau bod trefniadau'r awdurdod ar gyfer asesu anghenion a chomisiynu yn strategol yn canfod ac yn blaenoriaethu anghenion plant, pobl ifanc, oedolion gan gynnwys pobl hŷn a gofalwyr, a chynghori'r cynghorwyr ar y goblygiadau;
- cynghori cynghorwyr ar strategaethau i wella dulliau ymyrryd, darparu gwasanaeth, ymarfer a defnyddio adnoddau;
- darparu'r wybodaeth a'r cyngor proffesiynol sydd eu hangen ar bwyllgorau craffu i gyflawni eu cyfrifoldebau; a
- codi safonau mewn ymarfer gwaith cymdeithasol yng ngoleuni tystiolaeth ymchwil berthnasol.

**Trefniadau a Phrosesau Adrodd Cadarn o ran Rheoli Perfformiad a Gwella**

4.8.3 O fewn y fframwaith ar gyfer perfformiad a gwella, bydd y Cyfarwyddwr yn:

- hyrwyddo diwylliant o reoli perfformiad yn weithredol, gan gynnwys cael y gwerth gorau o fuddsoddiad, ym mhob maes o'r gwasanaethau cymdeithasol;
- sicrhau bod safonau'r prosesau a'r canlyniadau'n cael eu diffinio'n glir, trwy gael mewnbwn gan bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau, y staff ac asiantaethau eraill yn y sectorau statudol a phreifat a'r Trydydd sector;
- goruchwylio'r dasg o gyflwyno a chynnal systemau effeithiol i reoli perfformiad, monitro canlyniadau, llwyddiannau a diffygion, a gweithredu i unioni'r rhain lle bydd angen;
- cyflwyno datganiad blynyddol o gynlluniau ar gyfer perfformiad a gwella i'r Cyngor, ei gyhoeddi ac adrodd arno;
- sicrhau bod adroddiadau arolygu ac archwilio ac adroddiadau allanol eraill am berfformiad yn cael eu hystyried a bod camau gweithredu priodol yn cael eu cymryd;
- ceisio nodi meysydd lle gellir cyd-adolygu perfformiad a defnyddio dulliau cydweithredol i sicrhau gwelliannau; a
- codi safonau mewn ymarfer gwaith cymdeithasol yng ngoleuni tystiolaeth ymchwil berthnasol.

**Trefniadau a Phrosesau Adrodd Cadarn ar gyfer Diogelu Plant ac Oedolion**

4.8.4 Bydd y Cyfarwyddwr yn:

- goruchwylio ac adrodd i'r Cynghorwyr ar y broses o weithredu, monitro a gwella'r systemau ar gyfer diogelu ac amddiffyn plant ac oedolion ac adrodd ar hyn i'r aelodau;
- sicrhau bod y Bwrdd Lleol Diogelu Plant a'r Pwyllgor Amddiffyn Oedolion yn gweithredu'n effeithiol, a bod gwersi'n cael eu dysgu o adolygiadau achosion difrifol ac yn cael eu cymhwyso fel sydd angen gan bob

asiantaeth, gan gydnabod bod effeithlonrwydd trefniadau yn dibynnu ar ansawdd cyfraniad pob asiantaeth;

- sicrhau bod tystiolaeth a ddaw i law yn cael ei chymhwyso er mwyn darparu gwybodaeth i'r gwasanaethau cymdeithasol a gwaith rhyngasiantaeth am ymyrryd yn gynnar ac atal;
- codi proffil y canllawiau sydd ar gael ar amddiffyn oedolion, cefnogi'r polisi a sicrhau bod pawb yn cydymffurfio ag ef yn ymarferol;
- sicrhau bod pob aelod o staff mewn gwasanaethau cymdeithasol plant ac oedolion, ac mewn asiantaethau eraill, yn deall ac yn gweithredu safonau uchel o ran adnabod risg ac arferion diogelu;
- codi safonau mewn ymarfer gwaith cymdeithasol drwy sicrhau bod staff sy'n ymwneud â gwaith diogelu yn cael eu cefnogi'n briodol trwy hyfforddiant, goruchwyliaeth broffesiynol a chyfleoedd dysgu a myfyrio eraill; a
- hyrwyddo mwy o ymwybyddiaeth gyhoeddus o faterion amddiffyn plant ac oedolion ac addasu ymarfer gwaith cymdeithasol yng ngoleuni ymchwil berthnasol.

4.8.5 Er bod gan bob aelod o staff gyfrifoldeb i ddiogelu a hyrwyddo lles plant, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n parhau i fod yr uwch swyddog yn y cyngor sydd â'r atebolrwydd terfynol llawn am hyn. O ran oedolion agored i niwed, nid yw'r sail statudol ar gyfer y cyfrifoldeb hwn mor ddiamwys a chadarn ag y mae yn achos plant. Fodd bynnag, y gwasanaethau cymdeithasol sy'n gyfrifol am arwain y gwaith o sicrhau bod y gweithdrefnau lleol yn effeithiol, a'r Cyfarwyddwr sy'n atebol am y gwasanaethau cymdeithasol.

**Cynllunio'r Gweithlu a Datblygiad Proffesiynol**

4.8.6 Gan weithio gyda staff a rheolwyr, Rhanneriaid eraill yn y Cyngor a chyda darparwyr gwasanaethau, cyrff addysg a hyfforddiant a rheoleiddwyr, bydd y Cyfarwyddwr yn darparu arweiniad i:

- sicrhau bod yna drefniadau i ddatblygu a phennu cyfeiriad strategol i'r gweithlu yn y sector gofal cymdeithasol lleol trwy ddefnyddio polisïau ac asesiadau anghenion strategol y cyngor;
- sicrhau y sefydlir ac y gweithredir cynllun gweithlu sector cyfan sy'n nodi ac yn gweithredu mesurau a fydd yn sicrhau gweithlu sy'n ddigon mawr, medrus, diogel ac ymroddedig i ddiwallu'r anghenion asesiedig; Bydd hefyd yn mynd i'r afael â materion recriwtio a chadw staff, archwilio cefndir, cofrestru, gwobrwyo, galluoedd, cymwysterau, cymysgedd sgiliau, anghenion hyfforddi a gofynion cymorth, ac yn cynghori Cynghorwyr, Rhanneriaid a darparwyr eraill pan fydd diffygion yn arwain at wendidau o ran cyflenwi gwasanaethau neu'n rhwystro'r cyngor rhag cyflawni ei gyfrifoldebau statudol;

- sicrhau bod polisïau personél trosfwaol y cyngor yn adlewyrchu'r gofynion arbennig am weithlu diogel ac yn rhoi ystyriaeth lawn i'r gofynion a ddaw yn sgil cyflogi gweithlu rheoledig ac unigolion cofrestredig;
- sicrhau bod yna drefniadau Rhanneriaeth gyda Sefydliadau Addysg Uwch ar gyfer darparu hyfforddiant cymhwyso ac ôl-gymhwyso i weithwyr cymdeithasol, a bod cynllun strategol sy'n sicrhau cyflenwad digonol o weithwyr cymdeithasol cymwysedig a chynnwys trefniadau ar gyfer darparu cyfleoedd dysgu ymarfer;
- cydgysylltu gwaith gyda darparwyr addysg a hyfforddiant er mwyn sicrhau eu bod yn gymwys i gyflwyno rhaglenni perthnasol a seiliedig ar dystiolaeth sy'n briodol i staff, gofalwyr maeth a gwirfoddolwyr ar gyfer disgwyliadau'r presennol a'r dyfodol; a
- hyrwyddo diwylliannau o ddysgu parhaus ac ymarfer ar sail tystiolaeth ar lefel asiantaeth, tîm ac unigol a sicrhau bod yna fynediad effeithiol i sefydliadau a ffynonellau gwybodaeth ac addasu ymarfer gwaith cymdeithasol yng ngoleuni ymchwil berthnasol.

**Gweithio mewn Rhanneriaeth o fewn yr Awdurdod Lleol a thu allan**

4.8.7 Bydd y Cyfarwyddwr yn:

- arwain datblygiad amgylchedd o ymddiriedaeth ac ymrwymiad i gydweithio rhwng asiantaethau a nodi rhwystrau i gydweithio a gweithio i'w goresgyn;
- annog pontio rhwng y gwasanaethau cymdeithasol ac adrannau ac asiantaethau eraill, i ddatblygu dealltwriaeth o'r ffactorau sy'n eu sbarduno, eu diwylliannau a'u blaenoriaethau, ac i ganfod cyfleoedd ar gyfer cydweithio ar lefel strategol, gweithredol, tîm a phrosiect;
- sicrhau bod amodau'n cael eu creu ar gyfer gwaith rhyngasiantaeth effeithiol ar bob lefel mewn meysydd allweddol megis amddiffyn plant ac oedolion ac wrth gysoni cyfeiriadau strategol;
- hyrwyddo datblygiad protocolau ymarfer o fewn y gwasanaethau er mwyn helpu pobl i ddeall y meini prawf cymhwysedd;
- gyda chyngor gan y plant a'r oedolion sy'n defnyddio gwasanaethau amrywiaeth o asiantaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr, sicrhau bod problemau cydgysylltu rhyngasiantaethol a bylchau rhwng gwasanaethau'n cael eu nodi a'u datrys a bod cyfleoedd i wella'r cydweithio er lles y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau yn cael eu manteisio arnynt yn llawn;
- nodi cyfleoedd i rannu adnoddau a defnyddio Hyblygrwydd Deddf GIG Cymru 2006 i gyflawni mwy o effeithiolrwydd ac effeithioldeb, a hyrwyddo datblygiad mentrau ar y cyd er mwyn gweld y manteision a nodwyd; a
- cyfrannu at y gwaith o weithredu polisïau a mentrau Llywodraeth Leol a Llywodraeth y Cynulliad sydd â'r nod o sicrhau gwelliannau ym maes gweithio mewn Rhanneriaeth.

**Llywodraethu, Cyfeiriad Strategol a Rheoli Gweithredol**

4.8.8 Wrth ddiffinio rôl ac atebolrwydd ym meysydd amrywiol cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwr, dylai awdurdodau wahaniaethu'n glir rhwng cyfrifoldebau llywodraethu, cyfeiriad strategol a rheoli gweithredol:

- ar lefel lywodraethu, sy'n cynnwys y Cyngor a'r Weithrediaeth, Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a Phrif Swyddogion eraill yn arbennig, rhoddir y pwyslais ar arweiniad gwleidyddol ac atebolrwydd, llunio polisïau a gosod cyllidebau; Mae rôl y Cyfarwyddwr yn cynnwys cynghori'r Weithrediaeth a'r Cyngor ac, os oes angen, rhoi ei farn ar adroddiadau a ddaw o unrhyw ffynhonnell sy'n amlygu materion yn ymwneud â phryder proffesiynol, risg neu enw da; Mae gan y pwyllgorau craffu rôl hollbwysig o ran dal y Weithrediaeth yn gyfrifol;
- ar lefel cyfeiriad strategol, mae Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn adrodd i Bennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig a'r Aelod(au) Arweiniol ar sut y mae penderfyniadau gwleidyddol, polisi a chyllidebol y cyngor yn cael eu troi'n strategaethau rheoli, proffesiynol a gwasanaeth, a phenderfyniadau ar y blaenoriaethau o ran defnyddio adnoddau; Unwaith eto, mae'r pwyllgorau craffu'n chwarae rôl allweddol o ran archwilio effeithiolrwydd systemau ar gyfer gweithredu polisi, rheoli perfformiad a dyrannu a rheoli cyllideb; ac
- ar lefel rheoli gweithredol, rhaid i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol gael systemau dibynadwy a llif o wybodaeth er mwyn monitro, herio a dylanwadu ar berfformiad, ansawdd, risg a chyfleoedd ar draws yr amrywiaeth llawn o waith comisiynu, darparu gwasanaethau ac ymarfer ym maes plant ac oedolion, a rhaid iddo fod yn atebol i'r aelodau am y rhain. Os na fydd gwasanaethau na staff yn cael eu rheoli'n uniongyrchol gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, mae'n bwysicach fyth fod trefniadau adrodd ac atebolrwydd yn cael eu cyflwyno a'u deall gan y naill ochr a'r llall.

# 5. Cysylltiadau

**Cysylltiadau rhwng Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a Phennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig**

5.1 Mae Pennaeth y Gwasanaethau Cyflogedig yn:

- gyfrifol am arwain sefydliad sy’n gallu cyflawni’n llwyddiannus a sicrhau gwelliant parhaus;
- atebol i’r Cyngor a’r cyhoedd am weithredu gwasanaethau’r Cyngor i gyd;
- cyfrifol am reoli ac arwain pob Cyfarwyddwr a Phrif Swyddog, ac am greu’r amodau lle gall eraill berfformio, arloesi a darparu arweiniad o fewn eu gwasanaeth;
- atebol fel Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig am y cyngor a roddir i Gynghorau ar ddyrannu adnoddau; ac
- atebol (trwy’r Swyddogion Arweiniol yn aml) am sicrhau bod yna systemau rheoli a monitro er mwyn gallu rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf iddyn nhw a’r arweinyddiaeth wleidyddol am bob agwedd ar berfformiad y Cyngor.

5.2 Mae Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn benodiad statudol a bydd yn aelod llawn o’r prif dîm rheoli o dan arweiniad Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig. Ni fydd Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig yn penodi swyddogion statudol, ond bydd yn debygol o gyfrannu at y broses hon. Mae Cyfarwyddwr statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol yn atebol i Bennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig a, thrwyddo ef, i’r Cyngor. Strwythurir y cysylltiad hwn trwy’r tîm rheoli, trwy’r broses gyllidebol a thrwy fonitro a rheoli perfformiad. Mae hyn yn wir i bob Cyfarwyddwr. Caiff pwerau’r Cyfarwyddwyr eu gweithredu’n gorfforaethol trwy’r Cyngor, ac nid yn unochrog i asiantaethau neu adrannau llywodraethol.

5.3 Mae cysondeb ac ansawdd yr amser cyfarfod rhwng Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig a Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn elfen hanfodol yn y berthynas atebolrwydd. Er mwyn sicrhau bod gan y gwasanaethau cymdeithasol y proffil corfforaethol sydd ei angen, dylai Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a Phennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig friffio’i gilydd yn llawn ac yn rheolaidd. Dylai Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig gymryd yr amser hefyd i rannu gwybodaeth a syniadau ynglŷn â datblygiadau newydd gyda’r Cyfarwyddwyr. Dylai’r briffio dwyffordd hwn gynnwys materion “llosg” pwysig; gwybodaeth weithredol, perfformiad ac ariannol, sganio’r gorwel a chynllunio strategol. Bydd y cyfarfodydd ffurfiol rheolaidd hyn yn cael eu cynnal yn ychwanegol at y sgyrsiau anffurfiol a gynhelir yn amlach.

5.4 Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol sydd â’r atebolrwydd terfynol llawn am ansawdd gwasanaethau gofal cymdeithasol a’r gwaith o’u darparu, p’un ai’r ydynt yn cael eu darparu’n uniongyrchol neu’n cael eu comisiynu. Mae ganddo rwymedigaeth i adrodd y diweddaraf i Bennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig a’i gynnwys ym mhopeth, gan gynnwys adrodd ar adroddiadau Arolygiaeth ac

Archwiliad. Yn dilyn argymhellion Adroddiad Laming, mae gan Benaethiaid y Gwasanaeth Cyflogedig gyfrifoldeb dros adrodd a chyfrannu fel rhan o'r gwaith cyffredinol o arwain a rheoli'r Cyngor. Yn ogystal â hyn, mae gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, ac eraill yn y prif dîm rheoli, gyfrifoldeb dros bolisïau, strategaethau a chyllid holl wasanaethau'r cyngor.

5.5 Er bod y rolau hyn yn cydlynu gan amlaf, mae tensiynau cynhenid yn bosibl, er enghraifft, yn y trafodaethau i bennu cyllideb y flwyddyn. Fel aelod o'r prif dîm rheoli, efallai bydd rhaid i'r Cyfarwyddwr ganfod arbedion sylweddol, gan sicrhau ar yr un pryd fod yna ddigon o adnoddau i fodloni'r cyfrifoldebau statudol. Mae gan Bennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig a'r prif dîm rheoli gyfrifoldeb rhyngddynt i sicrhau bod cynghorwyr yn gwybod yn glir beth yw lefel yr adnoddau sydd eu hangen i fodloni'r cyfrifoldebau hynny. Lle nad yw'n bosibl i'r prif dîm rheoli ddatrys hyn, mae'n bwysig bod yr aelodau'n cael cyngor eglur gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, a barn Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig. O dan yr amgylchiadau hyn, mae gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol gyfrifoldeb i sicrhau bod y cyngor a roddir yn seiliedig ar dystiolaeth o ddyletswydd statudol ac ansawdd a gallu'r gwasanaeth o ran adnoddau. Mae gan ddeiliaid portffolio ar gyfer swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol gyfrifoldebau allweddol i gynrychioli'r materion hynny yn y Weithrediaeth a dod i benderfyniad.

5.6 Mae yna feysydd lle mae rôl Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig a rôl Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn annibynnol ar ei gilydd, fel y dylai fod, a meysydd eraill lle mae ganddynt atebolrwyddau unigryw sy'n cyflenwi ei gilydd. Yr hyn sy'n hanfodol yw eu bod yn glir ac yn cael ei ddeall. Tri maes arbennig y bydd gan y ddau ddiddordeb ynddynt fydd cyfanswm yr adnoddau, ansawdd y gwasanaethau ac effeithiolrwydd cysylltiadau rhyngasiantaethol. Er enghraifft, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol fydd yn gyfrifol am sicrhau ansawdd y gwasanaethau sy'n cynorthwyo ac amddiffyn plant. Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig fydd yn gyfrifol yn fwy cyffredinol am sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir i bobl leol yn diwallu eu hanghenion, bod trefniadau cadarn wedi'u gwneud a bod yr holl wasanaethau'n cael eu cyflenwi'n effeithiol.

5.7 Rhaid i Bennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig allu canfod unrhyw fethiannau systematig a pharhaus yn safonau ac ansawdd y gwasanaethau a ddarperir a sicrhau eu bod yn cael eu hunioni a, gydag Aelodau etholedig, rhaid iddo sicrhau bod y lefel briodol o flaenoriaeth ac adnoddau'n cael ei rhoi i'r gwasanaethau hyn. Rhan o rôl Penaethiaid y Gwasanaeth Cyflogedig a'r Cyfarwyddwyr yw rheoli risg. Rhaid i Gyfarwyddwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol hysbysu Penaethiaid y Gwasanaethau Cyflogedig a'r Cynghorwyram wybodaeth rheoli risg sydd wedi'i chyflwyno a'i hasesu'n briodol, a rhaid i hwythau fod yn effro i'r wybodaeth hon ac ymateb iddi. Rhaid ystyried hyn wrth bennu cyllidebau.

**Cysylltiad rhwng Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a Chyfarwyddwr Arweiniol y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc, pan fo'r ddwy swydd yn cael eu gwneud gan ddau unigolyn gwahanol**

5.8 Nodir y sail statudol ar gyfer Cyfarwyddwr Arweiniol Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc a Phartneriaethau a Chynlluniau Plant a Phobl Ifanc yn gynharach ym Mharagraffau 3.7 a 3.8.

5.9 Prif gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwr Arweiniol yw hyrwyddo cydweithrediad er mwyn gwella lles plant a phobl ifanc a chynhyrchu'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc. Mae'r cyfrifoldeb hwn yn ychwanegol at, ac yn annibynnol ar unrhyw gyfrifoldeb ychwanegol a allai fod gan Gyfarwyddwr Arweiniol dros wasanaethau arbennig. Felly, nid yw'r trefniadau hyn yn effeithio ar y cyfrifoldeb statudol i gyflenwi'r gwasanaethau, ac mae rhwymedigaeth ar awdurdodau lleol o hyd i enwi Prif Swyddog Addysg a Chyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.

5.10 Mae gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol rôl i sicrhau cyfraniad effeithiol at y Cynllun Plant a Phobl Ifanc o ran plant mewn angen a'u teuluoedd ac i weithio mewn Rhanneriaeth er mwyn cefnogi rôl y Cyfarwyddwr Arweiniol.

**Trefniadau lle mae'r Cyfarwyddwr Arweiniol yn rheoli Gwasanaeth Plant Integredig hefyd, gan gynnwys Gwasanaethau Cymdeithasol Personol i Blant**

5.11 Er mwyn sicrhau ymateb integredig i anghenion plant o ran dysgu a gwasanaethau cymdeithasol, bydd rhai cynghorau'n rhoi Gwasanaethau Cymdeithasol Plant a Theuluoedd o fewn Cyfarwyddiaeth Gwasanaeth Plant Integredig, gyda'r Cyfarwyddwr hwnnw'n cymryd rôl y Cyfarwyddwr Arweiniol hefyd.

5.12 Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n parhau i fod yn gyfrifol am drosolwg statudol o'r amrywiaeth llawn o weithgareddau gwasanaethau cymdeithasol personol o fewn yr Awdurdod, yn cynnwys gwybodaeth ystadegol ac ariannol a gwybodaeth berthnasol arall ac, yn arbennig, mae'n atebol am ansawdd y gwasanaethau a ddarperir i gyflawni swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol yr Awdurdod. Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n atebol hefyd am baratoi a/neu benderfynu ar gynnwys pob cynllun strategol sy'n ymwneud â'r holl wasanaethau cymdeithasol personol a gweithredu'r cynlluniau hynny. Pan fydd y cynlluniau hyn yn ymwneud â phlant a phobl ifanc a bod Cyfarwyddwr Arweiniol wedi'i benodi sydd â chyfrifoldebau dros wasanaethau integredig, yna bydd y cynlluniau'n cael eu datblygu ganddo ef, gan roi sylw dyledus i gyfrifoldebau statudol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol.

5.13 Er mwyn i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol allu cyflawni ei atebolrwydd yn effeithiol, rhaid cael trefniadau adrodd rheolaidd a ffurfiol gyda'r Cyfarwyddwr Arweiniol sydd â chyfrifoldeb dros wasanaethau plant integredig. Rhaid iddynt fod yn ddigonol i fodloni Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol fod y gwasanaethau hyn yn cael eu gweithredu'n ddiogel ac yn effeithiol a dylent alluogi'r Cyfarwyddwr i ddarparu gwybodaeth i'r Cyngor gan hynny yn yr adroddiad blynyddol a gyfeirir ato maes o law. Yn ogystal â hyn, rhaid i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol fod ar gael i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Integredig, fel y bydd angen ac fel sy'n ymarferol, i'w gynorthwyo gyda'i rôl trwy ddarparu cyngor ar faterion gwasanaeth arbennig, adrodd yn ôl yn gyson iddo ar faterion perthnasol yn ymwneud ag ymarfer a'r gweithlu (gan gynnwys, er enghraifft, dosbarthu Cylchlythyrau) a sicrhau cydlyniad y gwasanaethau.

5.14 Mae gan y ddau gyfrifoldeb i gysylltu'n rheolaidd ac yn ffurfiol yn unol â'r trefniadau y cytunwyd arnynt. Dylid cadw mewn cysylltiad agos ag Aelodau'r Cabinet ar gyfer Gwasanaethau Plant. Dylai Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig adolygu effeithiolrwydd y trefniadau hyn o bryd i'w gilydd, gan eu diwygio os bydd angen, a

dylid hysbysu'r Bwrdd Gweithredol a'r Cabinet/Cyngor am effeithiolrwydd y trefniadau yn rheolaidd.

**Cysylltiadau rhwng Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a Phenaethiaid Gwasanaethau i Oedolion ac i Blant a Theuluoedd**

5.15 Pan fydd rheolaeth weithredol o unrhyw ran o'r gwasanaethau cymdeithasol y tu allan i reolaeth llinell uniongyrchol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, dylid parhau i gysylltu'n rheolaidd â Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a dylai Pennaeth y Gwasanaeth a fframwaith ysgrifenedig nodi'n glir y cyfrifoldebau a'r llinellau atebolrwydd y mae'r Cyngor wedi'u rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod pob agwedd ar y gwasanaethau cymdeithasol yn cael ei rheoli'n ddiogel.

# 6. Adrodd ar Berfformiad, Gwelliannau a Chraffu

## Cyfrifoldebau cyffredinol

6.1 Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009[6] yn disodli'r ddyletswydd "gwerth gorau" gyda dyletswydd i sicrhau gwelliannau'n fwy cyffredinol. Mae'r Mesur yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau statudol i awdurdodau lleol ar sut y dylent gyflawni eu dyletswydd gyffredinol i wneud gwelliannau (h.y. gwneud trefniadau er mwyn sicrhau bod yna welliant parhaus yn y ffordd y cyflawnir eu swyddogaethau, gan ystyried effeithiolrwydd strategol, ansawdd gwasanaeth, i ba raddau y mae'r gwasanaeth ar gael, tegwch, cynaliadwyedd, effeithlonrwydd ac arloesedd).

6.2 Bydd *Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella: Canllawiau i Awdurdodau Lleol* yn cael eu diwygio ym mis Ebrill 2010 i adlewyrchu'r ddeddfwriaeth newydd hon. Mae'r drefn statudol newydd yn integreiddio cynlluniau strategol hirdymor a gwelliannau tymor byr i wasanaethau yn well. Mae gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol swyddogaeth allweddol yn y drefn hon a dylai allu darparu gwybodaeth ddibynadwy ar gyfer pob elfen yn ogystal â rhoi cyngor proffesiynol cadarn ar bob agwedd ar swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor.

6.3 Mae *Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella: Canllawiau i Awdurdodau Lleol 2005* yn parhau mewn grym tan fis Ebrill 2010 a dylai'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol barhau i sicrhau bod y wybodaeth a'r cyngor proffesiynol gofynnol ar gael i bob elfen o'r drefn.

6.4 Mae'r defnydd llawn ac effeithiol o dystiolaeth i sbarduno gwelliannau yn rhan ganolog o Raglen Cymru ar gyfer Gwella. Mae hyn yn cynnwys defnyddio dangosyddion perfformiad, ond nid yn gyfyngedig i hynny. Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n gyfrifol am sicrhau bod y dystiolaeth yn gywir a dibynadwy, ac am gynghori'r Cyngor ar ei dehongli .

6.5 Mae'n ofynnol gweithredu Cynlluniau Gwella yn ôl Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella ac maent yn fecanwaith allweddol i roi gwybodaeth i ddinasyddion am berfformiad y gwasanaethau a ddarperir gan eu hawdurdod lleol. Gall y Cyfarwyddwr helpu'r Cyngor i sicrhau bod y plant, oedolion a'r teuluoedd sy'n derbyn gwasanaethau cymdeithasol, gan gynnwys y rhai y grwpiau hynny nas clywir yn aml, yn cael gwybodaeth am berfformiad gwasanaethau cymdeithasol y Cyngor, ac yn cael cyfle i ymateb i'r wybodaeth hon.

6.6 Os oes pryderon ynglŷn â pherfformiad Cynghorau, mae Llywodraeth y Cynulliad a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn ymrwymedig i weithredu "Protocol ar Ddarparu Cymorth Llywodraeth Leol, Ymgymryd ag Ymyriad ac Arfer Pwerau Cyfarwyddyd o Dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1999". Mae'r protocol hwn, a fydd yn cael ei ddiwygio ar gyfer 2010 i adlewyrchu'r ddeddfwriaeth ddiweddaraf, yn canolbwyntio ar bum egwyddor allweddol:

---

[6] Am ragor o wybodaeth am Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, ewch i: http://cynulliadcymru.org//bus-home/bus-legislation/bus-leg-measures/business-legislation-measures-lg.htm.

- Egwyddor 1: Dylid gwybod am feysydd o wendid gwirioneddol neu bosibl cyn cymryd unrhyw gamau tuag at gymorth neu ymyriad.
- Egwyddor 2: Dim ysgol/clicied awtomatig o Ymyriad.
- Egwyddor 3: Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am wella eu perfformiad eu hunain, gan gynnwys unrhyw ddiffygion.
- Egwyddor 4: Dylid sefydlu rhaglen o weithgaredd cymorth a/neu ymyriad mewn ymgynghoriad â'r awdurdod a sefydliadau cenedlaethol, ynghyd â dulliau dechrau ac ymadael clir.
- Egwyddor 5: Dylai fod adborth 360°.

**Gofyniad i Adrodd yn Flynyddol**

6.7 Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn cyflwyno trefniadau mwy hyblyg er mwyn i Gynghorau allu adrodd ar welliannau. Mae'n bwysig cael sylfaen gadarn o fewn gwasanaethau cymdeithasol i adrodd ar berfformiad, sy'n gallu llywio trefniadau corfforaethol. Rhaid sefydlu hyn yn fwy eglur o fewn yr awdurdod.

6.8 Rhaid i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol adrodd i'w gyngor bob blwyddyn ar gyflenwi gwasanaethau, perfformiad a risg, yn ogystal â'r cynlluniau i wella pob un o'r swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Bydd gan yr adroddiad swyddogaeth bwysig wrth ddatblygu cynllun gwella trosfwaol y Cyngor (Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella). Bydd yr adroddiad a'r dystiolaeth sy'n sail iddod yn llywio'r gwaith o ddatblygu rhaglen waith flynyddol yr AGGCC i'r awdurdod, gan gynnwys cynllun rheoleiddio trosfwaol yr awdurdod cyfan. Bydd yn bwysig bod yr adroddiad a'r dystiolaeth sy'n sail iddo yn cael ei rhannu ar adegau priodol yn y cylch gydag AGGCC.

6.9 Bydd fformat yr adroddiad yn cael ei benderfynu gan bob cyngor, ond rhaid iddo:

- gael ei gyhoeddi cyn gynted â phosibl ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol y mae'n cyfeirio ati; a
- cynnwys adroddiad ar berfformiad a risg a nodi cynlluniau ar gyfer gwelliant o ran:

CAEL HELP
Mynediad i wasanaethau
Asesu
Rheoli ac adolygu gofal

LLUNIO'R GWASANAETHAU
Cynllunio a phartneriaethau
Comisiynu a chontractio
Adnoddau

Y GWASANAETHAU A DDARPERIR
Yr amrywiaeth o wasanaethau a ddarperir
Ansawdd y gwasanaethau a ddarperir

CYFLENWI GWASANAETHAU CYMDEITHASOL
Gweithlu
Rheoli perfformiad

| | |
|---|---|
| YR EFFAITH AR FYWYDAU POBL<br>Diogelu pobl sy'n agored i niwed<br>Hyrwyddo annibyniaeth a chynhwysiant cymdeithasol | DARPARU CYFEIRIAD<br>Arweiniad a diwylliant<br>Cefnogaeth a chraffu corfforaethol a gwleidyddol |

- ystyried safbwyntiau defnyddwyr gwasanaethau a'u teuluoedd yn ogystal â safbwyntiau rhanddeiliaid allweddol eraill;
- cynnwys adroddiad am yr holl wybodaeth am berfformiad gofal cymdeithasol (oedolion) a gofal cymdeithasol (plant) (gan gynnwys dangosyddion perfformiad) sy'n rhan annatod o Raglen Cymru ar gyfer Gwella;
- ystyried yr holl waith Arolygu, Adolygu a Rheoleiddio sy'n cael ei wneud; a
- cynnwys cyfeiriadau at bob grŵp cleient.

6.10 Bydd y broses o gynhyrchu'r adroddiad hwn ym mhob Cyngor yn hanfodol. Bydd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn goruchwylio pob cam o'r broses, gan friffio'r Aelod(au) Arweiniol a chynghorwyr eraill, Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig a Phrif Swyddogion eraill am unrhyw agweddau sy'n peri gofid. Rhaid i'r broses adeiladu ar systemau perfformiad a data corfforaethol a gwasanaeth y Cyngor, a bod yn seiliedig ar wybodaeth ddilys, gadarn a dibynadwy, gan gynnwys dangosyddion perfformiad cenedlaethol. Rhaid i'r rheiny sydd yn y gwasanaeth deimlo'n rhan o'r broses fel y gallant "adnabod y darlun" a gyflwynir, a rhaid i'r Cyngor cyfan ei defnyddio fel sbardun allweddol i welliant. Rhaid iddi gynhyrchu'r holl wybodaeth graidd sydd ei hangen ar arolygwyr a rheoleiddwyr i gyflawni'r gwaith arolygu, rheoleiddio ac adolygu.

6.11 Er mwyn sicrhau cywirdeb, ansawdd a dibynadwyedd y prosesau hyn a'r llif wybodaeth sy'n eu cefnogi, rhaid i'r Cyfarwyddwr allu sicrhau fod unrhyw ran o'r ddarpariaeth gwasanaethau cymdeithasol nad yw'n atebol iddo ef yn uniongyrchol yn cydweithio, yn cyflenwi gwybodaeth ac yn dangos ymrwymiad i weithredu. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ran arolygu a rheoleiddio gwasanaethau sy'n dod o dan gyfrifoldeb y Cyfarwyddwr a lle mae'n Unigolyn Cyfrifol ar gyfer gwasanaethau a ddarperir yn uniongyrchol hefyd o bosibl. Mae hefyd yn bwysig bod darparwyr allanol ac asiantaethau Rhanner yn cyfrannu eu safbwyntiau ar ansawdd y gwaith a wneir mewn Rhanneriaeth.

6.12 Mae'n hanfodol fod y cyngor a'i ddinasyddion, yn ogystal ag arolygwyr a rheoleiddwyr, yn gallu dibynnu ar yr adroddiad fel darlun llawn a chywir o wasanaethau cymdeithasol yr ardal. Er mwyn i hyn ddigwydd, bydd angen i awduron yr adroddiad fod yn eglur ac yn onest. Bydd data a gwybodaeth o ansawdd da yn hollbwysig, a bydd cael cysylltiadau cryf gyda'r Uned Ddata Llywodraeth Leol yn hanfodol i sicrhau y gellir manteisio ar gyfleoedd i ddefnyddio perfformiad a gwybodaeth yn llawn. Bydd hefyd angen cael her gadarn o fewn ei ddatblygiad a bydd hon yn debygol o gynnwys:

- archwilio cywirdeb data;
- “clybiau” o gynghorau tebyg i archwilio data cymharol;
- adolygiad gan gymheiriaid; a
- sylw a chyngor a roddir i’r Weithrediaeth gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu, gan ganolbwyntio’n arbennig ar ddigonolrwydd cynlluniau i ymdrin â’r materion a nodwyd.

6.13 Dylai Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol sicrhau bod y cynghorau’n mabwysiadu dull cadarn a chlir o gynhyrchu eu data a sicrhau ansawdd y data hwnnw, er budd eu dinasyddion.

**Gweithio gyda Phrosesau Craffu**

6.14 Mae’r pwyllgorau trosolwg a chraffu yn rhan hanfodol ac annatod o drefniadau Gweithredol. O dan Adran 21 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 a’r *Canllawiau ar Drefniadau Gweithredol a Threfniadau Amgen*, rhoddir pwerau adolygu a chraffu eang iddynt ac mae ganddynt y gallu i wneud adroddiadau ac argymhellion ynghylch unrhyw fater sy’n berthnasol i’r ardal a’i thrigolion.

6.15 Efallai y bydd rhaid i Gyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol berfformio rolau gwahanol o ran swyddogaethau trosolwg a chraffu eu Cynghorau, ac weithiau bydd rhaid iddynt reoli gwrthdaro rhwng y rolau hyn. Gan mai’r Cyfarwyddwr yw prif gynghorwr proffesiynol y Cyngor ar faterion sy’n ymwneud â gwasanaethau cymdeithasol, bydd yn cynghori’r pwyllgorau craffu hynny sy’n ymwneud yn uniongyrchol â materion gwasanaethau cymdeithasol plant ac oedolion, ac eraill o bosibl sydd â diddordeb perthnasol mewn materion gwasanaethau cymdeithasol. Bydd y pwyllgorau’n archwilio’r gwasanaethau lle mae gan y Cyfarwyddwr gyfrifoldebau darparu, comisiynu neu gydgysylltu, a gallent feirniadu agweddau ar berfformiad, darpariaeth a diffygion. Efallai bydd gan y Cyfarwyddwr wybodaeth neu rwydweithiau perthnasol i gefnogi gwaith y pwyllgorau o ran casglu safbwyntiau dinasyddion, grwpiau a sefydliadau yn y gymuned ehangach, a allai fod â gwahanol safbwyntiau i’r Cyngor o ran blaenoriaethau, lefelau adnoddau a’r meini prawf ar gyfer eu dyrannu.

## 7. Galluoedd a Argymhellir ar gyfer Deilydd Swydd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol

Er mwyn cyflawni'r holl feysydd atebolrwydd a nodwyd ar ddechrau'r canllawiau hyn, dylai Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol arddangos ystod o briodoleddau a galluoedd y dylai'r cynghorau eu hystyried. Nodir y rhain isod.

**Cymhwysedd**
Gwybodaeth:

- gwybodaeth am gyd-destun deddfwriaethol a trwythurol Gwasanaethau Cymdeithasol a gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru;
- dealltwriaeth a phrofiad o weithio mewn cyd-destunau gwleidyddol cenedlaethol a lleol sy'n atebol i'r cyhoedd, ac yn atebol i Gynghorwyr;
- profiad sylweddol a barn gadarn wrth reoli gwasanaethau cymdeithasol neu wasanaethau gofal cymdeithasol, yn arbennig o ran meysydd sy'n ymwneud â diogelu;
- gwybodaeth gadarn am amgylchedd gweithredol sefydliadau sector preifat a Thrydydd sector; a
- gwybodaeth a phrofiad ym maes cynllunio a datblygu'r gweithlu, dealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd gweithlu effeithiol ym mhob sector.

**Cymhwysedd**
Sgiliau:

- galluoedd arwain proffesiynol cryf, gallu creu newid a gwelliant trwy ddarbwyllo a dylanwadu ar eraill a chyfathrebu'n effeithiol;
- gallu ennyn ffydd a hyder y cyhoedd mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol;
- gallu ennyn hyder Cynghorwyr a Phrif Swyddogion eraill yn ei allu i gyflawni'r cyfrifoldebau a ddirprwyir iddo;
- gallu sicrhau bod pobl a gwasanaethau'n cyflawni'u cyfrifoldebau trwy lifoedd a systemau gwybodaeth, llinellau adrodd a dulliau archwilio proffesiynol a rheoli;
- gallu cynnal ymrwymiad y staff a'r rheolwyr ar bob lefel i wneud gwaith o safon a chadw at arferion da;
- gallu gweithio'n effeithiol o fewn fframweithiau llywodraeth leol a chenedlaethol;
- rheoli pobl, gwaith ac adnoddau yn effeithiol;
- gallu cynnal asesiadau anghenion strategol a chynllunio ar y cyd ag asiantaethau eraill yn effeithiol; a

- gweithio mewn Rhanneriaeth yn effeithiol, cyfrannu at y weledigaeth gyffredin a'r diben cyffredin, ac at ddatblygu atebion cydweithredol sy'n cefnogi cydweithrediad wrth gynllunio a darparu gwasanaethau.

**Cymhwysedd**
Ymddygiad:

- wedi ymrwymo i roi hawliau dynol, sifil a phlant ar waith ac i ddilyn arferion sy'n ymateb i ddefnyddwyr;
- hyrwyddo cyfranogiad a chynhwysiant trwy ddulliau gweithio agored, hygyrch a thryloyw;
- dangos dychymyg, gweledigaeth, creadigrwydd ac arloesedd gydag agwedd at ddysgu a datblygu sy'n edrych y tu allan i'r sefydliad ei hun;
- wedi ymrwymo i ddatblygiad parhaus ar bob lefel ac ym mhob sector; a
- dangos agwedd feirniadol at eu hymarfer a'u datblygiad eu hunain.

# Atodiad 1

## Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970 Atodlen 1

### Swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol

| DEDDFIAD | NATUR Y SWYDDOGAETHAU | NODIADAU |
|---|---|---|
| **Deddf Plant a Phobl Ifanc 1933** | | |
| Rhan III | Amddiffyn yr ifanc mewn perthynas ag achosion troseddol a diannod; plant sy'n dod gerbron y llys fel plant sydd angen gofal, eu hamddiffyn neu'u rheoli; cyflwyno plant i ysgol warchod neu ofal rhywun addas, ac ati | Dal mewn grym |
| Rhan IV | Cartrefi remand, ysgolion gwarchod a phlant dan ofal rhywun addas | Dal mewn grym |
| **Deddf Cymorth Gwladol 1948** | | |
| Adrannau 21 i 27 | Darparu llety preswyl i'r henoed, y methedig, pobl anghenus, ac ati | Adrannau 21, 23, 24 a 26 dal mewn grym<br>Adrannau 22 mewn grym ond i'w diddymu<br>Adrannau 25 a 27 wedi'u diddymu |
| Adrannau 29 a 30 | Lles pobl ddall, byddar, mud, neu dan fath arall o anfantais neu sy'n dioddef o anhwylder meddwl; defnyddio sefydliadau gwirfoddol i weinyddu cynlluniau lles | Dal mewn grym |
| Adrannau 43 i 45 | Adennill costau am ddarparu gwasanaethau penodol | Adrannau 43 a 45 mewn grym<br>Adran 44 wedi'i diddymu |
| Adran 48 | Amddiffyn dros dro eiddo sy'n perthyn i bobl yn yr ysbyty neu mewn llety a ddarperir o dan Ran III o'r Ddeddf, ac ati | Dal mewn grym |

| DEDDFIAD | NATUR Y SWYDDOGAETHAU | NODIADAU |
|---|---|---|
| Adran 49 | Talu treuliau swyddog yr awdurdod lleol sy'n gwneud cais i fod yn ddirprwy i gleifion penodol | Dal mewn grym |
| Adran 56(3) ac eithrio i'r graddau y mae'n ymwneud â throsedd o dan adran 47(11) | Erlyn troseddau | Dal mewn grym |
| **Deddf Personau Anabl (Cyflogaeth) 1958** | | |
| Adran 3 | Darparu cyfleusterau er mwyn i bobl anabl allu cael eu cyflogi neu weithio o dan amodau arbennig | Dal mewn grym |
| **Deddf Iechyd Meddwl 1959** | | |
| Adran 8 | Lles a llety pobl ag anhwylderau meddwl | Mewn grym ond i'w diddymu |
| **Deddf Iechyd Meddwl (Yr Alban) 1984** | | |
| Adran 10 | Lles unigolyn arbennig tra'i fod yn yr ysbyty yn yr Alban | Dal mewn grym |
| **Deddf Gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd a Gwaith Cymdeithasol (Hyfforddiant)1962** | | |
| Adran 5(1)(b) | Gwaith ymchwil i faterion sy'n gysylltiedig â gwasanaethau lles awdurdodau lleol | Deddf wedi'i diddymu |
| Adran 5(1)(c) | Gwaith ymchwil i faterion sy'n gysylltiedig â swyddogaethau awdurdodau lleol | Deddf wedi'i diddymu |
| **Deddf Plant a Phobl Ifanc 1963** | | |
| Rhan I | Pwerau sy'n gysylltiedig â phobl ifanc sydd angen gofal, eu hamddiffyn neu'u rheoli; darpariaethau pellach i amddiffyn yr ifanc o safbwynt achosion troseddol | Adrannau sy'n ymwneud â swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol wedi'u diddymu |

| DEDDFIAD | NATUR Y SWYDDOGAETHAU | NODIADAU |
|---|---|---|
| **Deddf Gwasanaethau Iechyd ac Iechyd Cyhoeddus 1968** | | |
| Adran 45 | Hyrwyddo lles yr henoed | Dal mewn grym |
| Adran 65 | Cymorth ariannol a mathau eraill o gymorth i sefydliadau gwirfoddol | Dal mewn grym |
| **Deddf Gwaith Cymdeithasol (Yr Alban)1968** | | |
| Adrannau 75(2) a 76(4) | Cyfeiriad i'w ystyried, ac ati, yn achos plentyn mewn gofal y mae ei riant yn symud i'r Alban a throsglwyddo'r plentyn | Adrannau 75 a 76 wedi'u diddymu |
| **Deddf Plant a Phobl Ifanc 1969** | | |
| Y Ddeddf gyfan ac eithrio adran 9 i'r graddau y mae'n neilltuo swyddogaethau i awdurdod lleol yn ei rôl fel awdurdod addysg lleol | Gofal a thriniaeth arall i blant a phobl ifanc gydol achosion llys | Mae rhai adrannau (adran 9, er enghraifft) sy'n cyfeirio at swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol dal mewn grym |
| **Deddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970** | | |
| Adran 1 | Cael gwybodaeth am yr angen am wasanaethau lles penodol, a chyhoeddi gwybodaeth am eu bodolaeth | Dal mewn grym |
| Adran 2 | Darparu gwasanaethau lles penodol | Dal mewn grym |
| Adran 18 | Darparu gwybodaeth benodol sydd ei hangen ar yr Ysgrifennydd Gwladol | Mewn grym ond i'w diddymu |
| **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol** | | |
| Adran 6 | Penodi cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru | Adran 6 dal mewn grym |
| Adran 7B | Darparu a chynnal gweithdrefn gwyno | Adran 7B mewn grym ond i'w diddymu |

| DEDDFIAD | NATUR Y SWYDDOGAETHAU | NODIADAU |
|---|---|---|
| **Deddf Mabwysiadu 1976** | | |
| | Swyddogaethau sy'n dal i fod yn arferadwy yn rhinwedd unrhyw ddarpariaeth drosiannol neu arbed a wnaed gan neu o dan y Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 | Adrannau sy'n ymwneud â swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol wedi'u diddymu |
| **Deddf Plant 1975** | | |
| Rhan II | Cais awdurdod lleol i ddirymu gorchymyn gwarchodaeth ymholiadau awdurdodau lleol mewn achosion gwarchodaeth | Wedi'i diddymu |
| **Deddf Budd-daliadau Atodol 1976** | | |
| Atodlen 5 | Darparu a chynnal a chadw [unedau adsefydlu] ar gyfer pobl nad oes ganddynt ffordd sefydlog o fyw | Wedi'i diddymu |
| **Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977** | | |
| Atodlen 8 | Gofalu Mamau a phlant ifanc; atal, gofal ac ôl-ofal; cymorth yn y cartref a chyfleusterau golchi dillad | Dal mewn grym ond bellach yn rhan o Atodlen 15 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 |
| **Deddf Cartrefi Preswyl 1980** | | |
| Adrannau 1 i 7 | Cofrestru cartrefi i bobl anabl neu'r henoed a chartrefi preswyl i bobl ag anhwylderau meddwl | Wedi'i diddymu |
| **Deddf Iechyd Meddwl 1983** | | |
| Rhannau II, III a VI | Lles pobl ag anhwylderau meddwl; gwarcheidwaeth pobl sy'n dioddef o anhwylderau meddwl gan gynnwys y rhai sy'n cael eu symud o'r Alban neu Ogledd Iwerddon i Gymru a Lloegr; gweithredu swyddogaethau'r | Dal mewn grym |

| DEDDFIAD | NATUR Y SWYDDOGAETHAU | NODIADAU |
|---|---|---|
| | perthynas agosaf y sawl sy’n dioddef yn y modd hwn | |
| Adrannau 66, 67, 69(1) | Gweithredu swyddogaethau’r perthynas agosaf o safbwynt ceisiadau a geirdaon i Dribiwnlysoedd Adolygu Iechyd Meddwl | Dal mewn grym |
| Adran 114 | Penodi gweithwyr cymdeithasol cymeradwy | Dal mewn grym |
| Adran 115 | Mynediad ac arolygu | Dal mewn grym |
| Adran 116 | Lles cleifion ysbyty penodol | Dal mewn grym |
| Adran 117 | Ôl-ofal cleifion dan orchymyn | Dal mewn grym |
| Adran 130 | Erlyniadau | Dal mewn grym |
| **Deddf Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Dyfarniadau Nawdd Cymdeithasol 1983** | | |
| Adran 17, i’r graddau y mae’n ymwneud â gwasanaethau a ddarperir o dan y deddfiadau y sonnir amdanynt yn isadran (2)(a) i (c) | Codi tâl am wasanaethau lles awdurdodau lleol | Dal mewn grym |
| **Deddf Iechyd Cyhoeddus (Rheoli Clefydau) 1984** | | |
| Adran 46(2) a (5) | Claddu neu amlosgi person sy’n marw mewn llety a ddarperir o dan Ran III o’r Ddeddf Cymorth Gwladol 1948, ac adennill treuliau o’i ystâd | Dal mewn grym |
| **Deddf Tai 1996 Adran 213(1)(b)** | | |
| | Cydweithredu mewn perthynas â phobl ddigartref a phobl mewn perygl o fod yn ddigartref | Dal mewn grym |

| DEDDFIAD | NATUR Y SWYDDOGAETHAU | NODIADAU |
|---|---|---|

**Deddf Personau Anabl (Gwasanaethau, Ymgynghori a Chynrychiolaeth) 1986**

| | | |
|---|---|---|
| Adrannau 1 i 5, 7 ac 8 ac eithrio i'r graddau y maent yn neilltuo swyddogaethau i awdurdod lleol yn ei rôl fel awdurdod addysg lleol | Cynrychioli ac asesu pobl anabl | Dal mewn grym |

**Deddf Tai (Yr Alban) 1987**

| | | |
|---|---|---|
| Adran 38(b) | Cydweithredu mewn perthynas â phobl ddigartref a phobl mewn perygl o fod yn ddigartref | Dal mewn grym |

**Deddf Plant 1989**

| | | |
|---|---|---|
| Y Ddeddf gyfan, i'r graddau y mae'n rhoi swyddogaethau i awdurdod lleol o fewn ystyr y Ddeddf honno | Adroddiadau lles<br>Caniatâd i ymgeisio am orchymyn preswylio mewn perthynas â phlentyn mewn gofal<br>Swyddogaethau sy'n gysylltiedig â gorchmynion gwarcheidwaeth arbennig<br>Gorchmynion cymorth teulu<br>Swyddogaethau o dan Ran III o'r Ddeddf (cymorth awdurdod lleol i blant a theuluoedd)<br>Amddiffyn plant<br>Swyddogaethau o ran cartrefi cymunedol, cartrefi gwirfoddol a sefydliadau gwirfoddol, cartrefi plant preifat, trefniadau preifat ar gyfer maethu plant, gwarchod plant a gofal dydd i blant ifanc<br>Arolygu cartrefi plant ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol<br>Gwaith ymchwil a datganiadau gwybodaeth | Dal mewn grym |

| DEDDFIAD | NATUR Y SWYDDOGAETHAU | NODIADAU |
|---|---|---|
| | Swyddogaethau sy'n gysylltiedig â phlant mewn llety Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau Gofal Sylfaenol, ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol ac awdurdodau addysg lleol neu gartrefi preswyl, ysbytai annibynnol neu ysgolion | |
| **Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990** | | |
| Adran 46 | Paratoi cynlluniau ar gyfer gwasanaethau gofal cymunedol | Dal mewn grym |
| Adran 47 | Asesu anghenion ar gyfer gwasanaethau gofal cymunedol | Dal mewn grym |
| **Deddf Addysg 1996** | | |
| Adran 322 | Cymorth i awdurdodau addysg lleol o safbwynt gweithredu swyddogaethau o dan Ran III o'r Ddeddf | Dal mewn grym |
| **Deddf Gofalwyr (Cydnabyddiaeth a Gwasanaethau)1995** | | |
| Adran 1 | Asesu gallu gofalwyr i ddarparu gofal | Dal mewn grym |
| **Deddf Gofal Cymunedol (Taliadau Uniongyrchol) 1996** | | |
| | Swyddogaethau o safbwynt gwneud taliadau i bobl pan fyddant yn sicrhau darpariaeth gwasanaethau gofal cymunedol neu wasanaethau o dan y Ddeddf Gofalwyr a Phlant Anabl 2000 | Wedi'i diddymu gan y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001 ond nid yw'r diddymiad mewn grym hyd yn hyn |
| **Deddf Mabwysiadu (Agweddau Rhyngwladol)1999** | | |
| Adrannau 1 a 2(4) | Swyddogaethau o dan reoliadau a wnaed o dan Adran 1 sy'n gweithredu'r Confensiwn Amddiffyn Plant a Chydweithredu o safbwynt Mabwysiadu Rhyngwladol, a gytunwyd yn yr Hâg ar 29 Mai 1993 a swyddogaethau o dan Erthygl 9(a) i (c) o'r Confensiwn | Dal mewn grym |

| DEDDFIAD | NATUR Y SWYDDOGAETHAU | NODIADAU |
|---|---|---|
| **Deddf Gofalwyr a Phlant Anabl 2000** | | |
| Y Ddeddf gyfan, i'r graddau y mae'n rhoi swyddogaethau i awdurdod lleol o fewn ystyr y Ddeddf honno | Asesu anghenion gofalwyr<br>Darparu gwasanaethau i ofalwyr<br>Darparu talebau | Dal mewn grym |
| **Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001** | | |
| Rhan 4 i'r graddau y mae'n rhoi swyddogaethau i awdurdod lleol yng Nghymru neu Loegr o fewn ystyr y Rhan honno | Swyddogaethau o safbwynt darparu llety preswyl<br>Gwneud taliadau uniongyrchol i unigolyn pan fydd yn sicrhau darpariaeth gwasanaethau gofal cymunedol neu wasanaethau i ofalwyr | Mae Rhan 4 mewn grym, heblaw Adran 56 sydd mewn grym yn yr ystyr ei bod yn rhoi unrhyw bwerau i wneud gorchymyn neu reoliadau sy'n arferadwy gan yr Ysgrifennydd Gwladol, ddim mewn grym fel arall. Mae Adran 56 yn ymwneud â rheoliadau a all wneud darpariaeth i Awdurdodau Lleol wneud trefniadau ar gyfer llety preswyl yn yr Alban, Gogledd Iwerddon, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw |
| **Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002** | | |
| | Cynnal a chadw'r Gwasanaeth Mabwysiadu; swyddogaethau awdurdodau lleol fel asiantaeth fabwysiadu | Dal mewn grym |

| DEDDFIAD | NATUR Y SWYDDOGAETHAU | NODIADAU |
|---|---|---|
| **Deddf Gofal Cymunedol (Oedi wrth Ryddhau ac ati) 2003** | | |
| Rhan 1 | Swyddogaethau sy'n gysylltiedig â chleifion mewn ysbytai sy'n debygol o fod angen gwasanaethau gofal cymunedol er mwyn eu rhyddhau'n ddiogel | Ddim mewn grym yng Nghymru hyd yn hyn |
| **Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003** | | |
| Adran 114 | Ystyried cwynion | Mewn grym ond nid yw'r Atodlen wedi'i diwygio hyd yn hyn er mwyn cyfeirio ati |
| **Deddf Gofalwyr (Cyfle Cyfartal) 2004** | | |
| Adran 3, i'r graddau y mae'n rhoi swyddogaethau i awdurdod lleol o fewn ystyr yr adran honno | Cydweithredu rhwng awdurdodau | Dal mewn grym |
| **Deddf Plant 2004** | | |
| Adrannau 13 i 16 a 31 to 34 | Swyddogaethau o safbwynt Byrddau Lleol Diogelu Plant | Dal mewn grym D.S. Mae Adrannau 31 mae 34 yn berthnasol i Gymru yn unig |
| **Deddf Galluedd Meddyliol 2005** | | |
| Adran 39 | Cyfarwyddo eiriolwr galluedd meddyliol annibynnol cyn darparu llety i berson â diffyg galluedd | Dal mewn grym |
| Adran 39A | Cyfarwyddo eiriolwr galluedd meddyliol annibynnol wrth roi awdurdod brys, neu wneud cais am awdurdod safonol, o dan Atodlen A1 o'r Ddeddf | Ddim mewn grym hyd yn hyn |

| DEDDFIAD | NATUR Y SWYDDOGAETHAU | NODIADAU |
|---|---|---|
| Adran 39C | Cyfarwyddo eiriolwr galluedd meddyliol annibynnol pan nad oes cynrychiolydd ar gyfer yr unigolyn perthnasol o dan Ran 10 o Atodlen A1 o'r Ddeddf | Ddim mewn grym hyd yn hyn |
| Adran 39D | Cyfarwyddo eiriolwr galluedd meddyliol annibynnol pad nad yw cynrychiolydd yr unigolyn perthnasol o dan Ran 10 o Atodlen A1 o'r Ddeddf yn cael ei dalu | Ddim mewn grym hyd yn hyn |
| Adran 49 | Adroddiadau mewn achosion | Dal mewn grym |
| Atodlen A1 | Unrhyw swyddogaethau | Ddim mewn grym hyd yn hyn |

**Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008**

| | | |
|---|---|---|
| Rhan 1 | Gwneud trefniadau ar gyfer cyflawni swyddogaethau gofal perthnasol mewn perthynas â phlant a phobl ifanc penodol | Dal mewn grym |